# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad: Ar-lein

Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2024

Amser: 09.02 - 09.27

# Remote / Private

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan<br>Jane Hutt AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siân Wilkins, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Dros Dro<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Llinos Madeley, Clerc, Gweithdrefnau a Sgiliau Seneddol<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Adam Vaughan, Ail Glerc |

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newid a ganlyn:

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg: Tata Steel (45 munud)

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn trafodion Cyfnod 3.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 8.05pm

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd toriad o 15 munud yn cael ei gymryd rhwng y Cyfnod Pleidleisio a thrafodion Cyfnod 3. Mae 53 o welliannau i'w gwaredu mewn 15 grŵp ac felly'r disgwyl yw y bydd Cyfnod 3 yn cymryd rhwng 2 a 3 awr.

At hynny, dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei bod wedi cytuno i Julie James gael pleidlais drwy ddirprwy o'r wythnos hon tan 13 Awst. Jane Hutt fydd yn cynnal y bleidlais. Nododd y Llywydd, hefyd, fod trefniant pleidleisio drwy ddirprwy Jack Sargeant bellach wedi dod i ben.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl y ddadl fer.

- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.25pm

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i’r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 10 Gorffennaf 2024**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio (45 munud) – ***i’w hateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa’r Cabinet***

**Dydd Mawrth 16 Gorffennaf 2024**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth: Diweddariad ar drafnidiaeth (45 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau canlynol gyda’i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (5 munud)
    - Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) (Cymru) 2024
    - Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024

Gofynnodd Heledd Fychan am eglurder ar destun y Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth: Diweddariad ar drafnidiaeth, i'w gynnal ar 16 Gorffennaf. Cytunodd y Trefnydd i ddarparu rhagor o wybodaeth i Reolwyr Busnes y tu allan i'r cyfarfod.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 18 Medi 2024 –**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

### 4.1 Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ynghylch amserlen y Gyllideb Ddrafft 2025-26

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

## 5 Gwaith Gweithdrefnol

### 5.1 Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor: ymagwedd at waith

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried ei ddull o weithio o ran cadeiryddion pwyllgor yn rhannu swydd, a chytunwyd ar gylch gorchwyl ac amserlen fesul cam ar gyfer y gwaith.

Byddai'r amserlen honno'n cynnwys ymarfer casglu tystiolaeth cyfyngedig wedi'i dargedu gyda Fforwm y Cadeiryddion a rhanddeiliaid allanol perthnasol, ar egwyddorion ac ymarferoldeb cadeiryddion pwyllgorau yn rhannu swydd, fel cam cyntaf y gwaith. Byddai'r ail gam yn cynnwys ymgynghori ag Aelodau, grwpiau gwleidyddol, y Bwrdd Taliadau Annibynnol, Comisiwn y Senedd a Fforwm y Cadeiryddion ar gynigion penodol yn nhymor yr hydref.

## 5.2 Parodrwydd gweithdrefnol ar gyfer Diwygio'r Senedd – ystyried yr adolygiad arfaethedig

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried materion ac opsiynau yn ymwneud â chwmpas ei adolygiad gweithdrefnol arfaethedig mewn ymateb i ddiwygio'r Senedd. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnal adolygiad eang i gynnwys meysydd dewisol, yn ogystal â'r gofynion hanfodol a'r ymrwymiadau y mae wedi'u rhoi'n flaenorol, a dychwelyd i ystyried cynllun manwl ac amserlen ar gyfer yr adolygiad yn nhymor yr hydref.

Gofynnodd Heledd Fychan i'r cydbwysedd rhwng y rhywiau o ran aelodaeth y pwyllgorau gael ei ystyried fel rhan o'r gwaith, a nododd y Llywydd y byddai angen gwneud gwaith hefyd ar drefniadau pleidleisio yn ymwneud â Dirprwy Lywydd ychwanegol posibl.